# COFNODION

## CABINET Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER 17 IONAWR 2024 AM 1PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid Hinsawdd), N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Eiddo a Phriffyrdd), P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd), C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd), E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad), C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau), S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai) ac E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol).

Ynghyd â:

D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd) a G. Jenkins (Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), A. Dallimore (Rheolwr y Gwasanaethau Adfywio), S. Harris (Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), L. Sykes (Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol a Swyddog A151), L. Lane (Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), M. Williams (Syrfëwr Rheoli), R. Roberts (Rheolwr Gwella Busnes), K. Peters (Rheolwr Gwasanaeth - Gwella Gwasanaethau a Phartneriaethau), J. Morgan (Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Chofrestryddion), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), H. Jones (Rheolwr Strategaeth a Gweithrediadau Gwastraff), M. Lloyd (y Pennaeth Seilwaith), T. McMahon (Rheolwr Gofalu am Gaerffili), H. Lancaster (Rheolwr Trawsnewid – Ymgysylltu) a J. Thomas (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

I. Phillips (Archwilio Cymru)

**TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO**

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w wylio ar wefan y Cyngor, ac eithrio yn achos trafodaethau'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i wylio.

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth C. Harrhy (Prif Weithredwr).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3. COFNODION – DYDD MERCHER 13 RHAGFYR 2024

PENDERFYNWYD cymeradwyo bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2023 yn gofnod cywir.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Rhoddwyd Blaenraglen Waith y Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd tan 3 Ebrill 2024, i'r Cabinet.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod y Flaenraglen Waith yn cael ei nodi. Trwy godi dwylo, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

## 5. ADRODDIAD ALLBWN ARCHWILIO CYMRU AR OSOD AMCANION LLESIANT AR GYFER CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI 2022-23

Croesawodd y Cabinet Mr Ian Philips o Archwilio Cymru i gyflwyno ei adroddiad a oedd yn cynnwys archwiliad Archwilio Cymru i'r Cabinet ynghylch a oedd y Cyngor wedi gosod ei Amcanion Llesiant newydd (Cynllun Corfforaethol 2023-2028) yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r ddyletswydd llesiant.

Nododd y Cabinet fod y ddyletswydd llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus osod amcanion llesiant sy'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal, a bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy (DC) wrth osod ei amcanion llesiant.

Diolchodd y Cabinet i Archwilio Cymru am yr adroddiad a'i argymhellion.

Gan ateb ymholiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol wrth y Cabinet, mewn ymateb i gyfeiriad Archwilio Cymru yn yr adroddiad at adolygu a mireinio'r dull o reoli perfformiad, fod y Tîm Rheoli Perfformiad yn datblygu set o ddangosfyrddau i alluogi Aelodau i adolygu'r broses o ddarparu'r amcanion llesiant a'r cynllun ariannol tymor canolig yn barhaus.

Gofynnodd y Cabinet beth oedd effaith ariannol cyflawni'r amcanion llesiant. Dywedodd y Pennaeth Cyllid wrth y Cabinet fod y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys yr adnoddau cyfredol a oedd yn cael eu dyrannu i'r amcanion llesiant a oedd yn wasanaethau craidd. Roedd yna hefyd nifer o grantiau yn cefnogi'r broses gyflawni. Dros y tair blynedd ddilynol roedd yn ofynnol gwneud arbedion o £66 miliwn. Byddai yna hefyd lu o raglenni newid i'w cael trwy raglen trawsnewid Tîm Symudiadau Caerffili.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a, thrwy gyfrwng Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd yn cael eu cynnwys yn adroddiad y Swyddogion:

1. Fod cynnwys yr adroddiad a ddarparwyd gan Archwilio Cymru a'r sylwadau a wnaed ynghylch Ymateb y Rheolwyr yn yr adroddiad yn cael eu nodi.

## 6. PECYN CYMORTH GOFALU AM GAERFFILI I DEULUOEDD A OEDD YN GYMWYS I GAEL PRYDAU YSGOL AM DDIM

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am y cymorth a oedd ar gael gan Gofalu am Gaerffili i deuluoedd cymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Nododd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru, ar 28 Mehefin 2023, wedi hysbysu'r Cyngor na fyddai bellach yn gallu darparu cymorth i dalu am brydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau, a bod hynny'n dod i rym yn ddi-oed. Roedd y cyhoeddiad wedi arwain at lawer o adborth gan deuluoedd a oedd yn dibynnu ar y taliad. O ganlyniad, ar 12 Gorffennaf 2023, cytunodd y Cabinet i ddarparu taliad untro o £19.50 yr wythnos fesul plentyn i deuluoedd cymwys ar gyfer cyfnod gwyliau’r ysgol. Byddai'r taliad yn dechrau ddydd Gwener 21 Gorffennaf 2023 ac yn dod i ben ddydd Iau 31 Awst 2023.

Gwnaethpwyd y penderfyniad i liniaru effaith cyhoeddiad hwyr Llywodraeth Cymru ynghylch tynnu cyllid yn ôl, a gofynnai hyn am ddyraniad cyllid untro o £900,000.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi bod Tîm Gofalu am Gaerffili (a phartneriaid cysylltiedig), ar y pryd, yn darparu ystod eang o gymorth i unigolion a theuluoedd agored i niwed yn rhan o'r pecyn cymorth Costau Byw.

Yn dilyn ymholiad, cadarnhaodd Rheolwr Gofalu am Gaerffili y byddai'r gwasanaethau a ddarperid ar y pryd i'r cyhoedd yn Llyfrgell Rhymni yn cael eu cyflwyno i ardaloedd eraill ond y byddent yn cael eu teilwra i anghenion pob ardal.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a, thrwy gyfrwng Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd i'w cael yn adroddiad y Swyddogion, fod cynnwys yr adroddiad i'w nodi.

## 7. TREFNIADAU TORRI GLASWELLT

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad lle gofynnid am gymeradwyaeth y Cabinet i ddiwygio trefniadau torri glaswellt ar draws y fwrdeistref sirol i wella a hyrwyddo bioamrywiaeth.

Mewn ymateb i ymholiad, ac yn dilyn pryderon a fynegwyd gan breswylwyr y flwyddyn gynt ynghylch yr amser a gymerid i dorri glaswellt a oedd wedi gordyfu, rhoddodd y Rheolwr Gweithrediadau Parciau a Chefn Gwlad sicrwydd i'r Cabinet y byddai'r Adran Parciau yn gweithredu mewn ffordd wahanol y flwyddyn honno, yn enwedig mewn perthynas â stadau tai, a fyddai'n cael eu torri yn eu cyfanrwydd o'r cychwyn cyntaf. Byddai yna ragdoriad ym mis Mawrth hefyd. Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet yn ogystal fod yna bwysau ychwanegol wedi bod y llynedd oherwydd swyddi gwag heb eu llenwi. Fodd bynnag, roedd y swyddi gwag hynny bellach wedi'u llenwi. Roedd nifer o'r peiriannau a ddefnyddid hefyd wedi cael eu huwchraddio.

Cydnabu'r Cabinet y pwysau a fu ar y Tîm Parciau a diolchodd i'r tîm am ei waith caled.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a, thrwy gyfrwng Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd yn cael eu cynnwys yn adroddiad y Swyddogion:

1. Mai'r dull a fabwysiadwyd oddi ar dymor torri 2021-22 oedd y safon torri glaswellt fabwysiedig o hyd mewn perthynas ag ymylon priffyrdd a ffyrdd osgoi'r Cyngor, lle'r oedd y glaswellt yn cael ei dorri cyn lleied o droeon â phosibl yn unol â chanllawiau Traffig Cymru, a bod hyn yn cael ei gymeradwyo.

2. Cymeradwyo bod y Cyngor yn parhau yn ei ymrwymiad i'r prosiect Nid yw Natur yn Daclus, a oedd yn rhan o Bartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent, gan sefydlu rheolaeth gydgysylltiedig ar fannau gwyrdd i greu cynefinoedd peillwyr llawn blodau gwyllt ledled ardaloedd awdurdodau lleol Gwent, a oedd yn cynnwys Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen

3. Cymeradwyo bod lleiniau gweledd a llinellau gweld ar briffyrdd; ymylon a mynediad ar droedffyrdd/llwybrau beicio; meysydd chwaraeon; ardaloedd trefol megis stadau tai, parciau dinesig, llety pobl hŷn, mynwentydd; mannau agored cyhoeddus ar gyfer chwarae/hamdden, oll yn cael eu cynnal ar yr amlder torri presennol.

4. Cymeradwyo'r rhestr o ardaloedd a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad, sef yr ardaloedd y caniateid iddynt ffynnu yn ystod cyfnod yr haf.

5. Bod yr Awdurdod yn parhau i ddatblygu a gwella ardaloedd gan ddefnyddio hadau blodau gwyllt wedi'u prynu, fel y nodir ym Mharagraff 5.11 yr adroddiad, a bod hyn yn cael ei gymeradwyo.

## 8. PENODI DADANSODDWYR CYHOEDDUS AC AMAETHYDDOL

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer newidiadau i brosesau penodi Dadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol.

Nododd y Cabinet fod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i orfodi Deddf Diogelwch Bwyd 1990, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod benodi Dadansoddwr Cyhoeddus i ddadansoddi bwyd o ran corffynnau estron a dibenion cyfansoddiadol a labelu. Roedd darpariaethau tebyg i'w cael yn Neddf Amaethyddiaeth 1970, a oedd yn ymwneud â'r angen i benodi Dadansoddwr Amaethyddol.

Yn dilyn ystyriaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a, thrwy gyfrwng Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, yn unol â'r rhesymau y manylir arnynt ym mharagraff 5.3 o adroddiad y Swyddogion, y byddid yn cymeradwyo penodi Dadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol.

## 9. DIWYGIADAU I BROSESAU AWDURDODI SWYDDOGION YN YR IS-ADRAN DIOGELU'R CYHOEDD

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cabinet am ddeddfwriaeth newydd ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio ac a ofynnai am awdurdodi swyddogion Is-adran Diogelu'r Cyhoedd.

Gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cabinet i Swyddog Monitro'r Cyngor wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r camau gweithredu ar gyfer awdurdodi/angen am awdurdodiad dan y ddeddfwriaeth y manylid arni yn yr adroddiad hwnnw.

Dywedodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd wrth y Cabinet fod cyngor wedi dod i law cyn i'r adroddiad gael ei lunio ynghylch y ffaith ei bod yn ofynnol ychwanegu *Animals (Low-Welfare Activities Abroad) Act 2023* at yr awdurdodiadau. Fodd bynnag, cafwyd gwybod oddi ar hynny nad oedd y Ddeddf yn berthnasol yng Nghymru a’r Alban. Felly, cynigiodd y Swyddog welliant i'r argymhelliad yn yr adroddiad.

Cynigiwyd ac eiliwyd, yn amodol ar welliant i argymhelliad 3.1 fel ei fod yn darllen fel a ganlyn: 'bod Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden yn cael ei awdurdodi dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 fel bod swyddogion perthnasol yn yr is-adran yn gallu defnyddio pwerau dirprwyedig i gyflawni eu dyletswyddau', y byddid yn cymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Swyddogion, a, thrwy gyfrwng Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD:

1. Awdurdodi Pennaeth Diogelu’r Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden dan Ddeddf Diogelu’r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 fel y gallai swyddogion perthnasol yn yr is-adran ddefnyddio pwerau dirprwyedig i gyflawni eu dyletswyddau.

2. Mai Swyddog Monitro'r Cyngor a fyddai'n gwneud y diwygiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad.

## 10. STRATEGAETH WASTRAFF DDRAFFT

Ystyriwyd y strategaeth gan y Cyd-bwyllgor Craffu ar 15 Ionawr 2024.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a roddai farn y Cyd-bwyllgor Craffu ar y Strategaeth Wastraff Ddrafft a dulliau ymgynghori cysylltiedig i'r Cabinet. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Wastraff Ddrafft y Cyngor.

Gofynnwyd hefyd am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y Strategaeth Ymgysylltu Ddrafft a'r Holiadur Ymgynghori, ynghyd â'r amserlenni arfaethedig.

Darparwyd y goblygiadau ariannol a oedd yn gysylltiedig â chyflawni'r strategaeth i'r Cabinet.

Nododd y Cabinet, yn dilyn ystyriaeth gan y Cyd-bwyllgor Craffu, y cytunwyd i ddiwygiad i'r strategaeth, sef bod y system archebu ar gyfer safleoedd ailgylchu gwastraff y cartref i gael ei dileu o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd Rheolwr y Strategaeth Wastraff a Gweithrediadau wrth y Cabinet fod tua 50% o awdurdodau eraill Cymru yn gweithredu system archebu, ac er nad oedd yna unrhyw ofyniad cyfreithiol i wneud hynny, roedd defnyddio system archebu yn darparu dull ychwanegol o reoli mewnbynnau i'r safleoedd, a hefyd yn sicrhau buddion Iechyd a Diogelwch i staff a oedd mewn sefyllfaoedd lle ceid gwrthdaro.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a, thrwy gyfrwng Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd yn cael eu cynnwys yn adroddiad y Swyddogion:

1. Cymeradwyo rhoi ystyriaeth i farn y Cyd-bwyllgor Craffu a'r Strategaeth Wastraff Ddrafft fel y gellid caniatáu i ymgynghoriad cyhoeddus ddechrau.

2. Cymeradwyo'r Strategaeth Ymgysylltu Ddrafft a'r holiadur ymgynghori drafft atodol

yn amodol ar ddileu unrhyw gyfeiriad at systemau archebu canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref.

3. Bod y goblygiadau ariannol a oedd yn gysylltiedig â gweithredu'r strategaeth yn cael eu nodi, ac y cytunid bod y swyddogion yn cynnal trafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â lefel y cymorth cyfalaf a oedd ar gael ganddi ac a oedd yn ofynnol i gyflawni'r strategaeth.

## 11. DATBLYGU CARTREF PLANT NEWYDD

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cabinet am y cynlluniau i brynu eiddo i ddatblygu llety â chymorth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed a oedd yn gadael gofal, ac i gadarnhau'r pris prynu a oedd uwchlaw prisiad y farchnad annibynnol. Yn unol â meini prawf ariannu Llywodraeth Cymru, dim ond gwerth marchnadol yr eiddo, nad yw o reidrwydd yn brisiad yr asiant eiddo na'r gwerthwr, y gall y grant dalu amdano. Yn yr achos hwn, roedd yna wahaniaeth o £50,000. Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo defnyddio arian ychwanegol o gronfeydd wrth gefn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd y Cabinet yn hynod o falch o nodi bod yr Aelodau Ward priodol wedi rhoi eu cefnogaeth lawn i'r datblygiad hwn, a dymunai ddiolch i'r Cynghorwyr Johnston, Hussey a Jeremiah am eu harddangosiad rhagorol o Rianta Corfforaethol ar waith mewn perthynas â chefnogi plant a phobl ifanc agored i niwed Caerffili.

Gan ymateb i sylwadau a wnaed gan y Cabinet ynghylch Rhianta Corfforaethol, dywedodd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol fod Rhianta Corfforaethol, ar y cyd â Diogelu, yn un o rolau pwysicaf unrhyw Aelod, a chadarnhaodd fod hyfforddiant ar Rianta Corfforaethol yn cael ei gynnwys yn yr hyfforddiant cynefino gorfodol ar gyfer pob Aelod newydd. Roedd seminarau, y rhoddwyd gwahoddiad i Aelodau eu mynychu, hefyd wedi cael eu cynnal.

Roedd y Cabinet yn arbennig o falch o nodi bod gan Gaerffili gynllun ehangu pellach i gynnwys rhagor o gartrefi preswyl i blant ac i sicrhau y byddai ganddo ddigon o ddarpariaeth breswyl i blant yng Nghaerffili.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a, thrwy gyfrwng Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd yn cael eu cynnwys yn adroddiad y Swyddogion:

1. Fod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi, a bod y pris prynu a'r defnydd arfaethedig o'r eiddo yn y dyfodol yn cael eu cefnogi.

## 12. CYNIGION Y GYLLIDEB DDRAFFT AR GYFER 2024-25

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad i'r Cabinet a oedd yn manylu ar gynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, a hynny'n seiliedig ar Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraethau Lleol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

Nododd y Cabinet fanylion ystod o bwysau o ran costau a gwasanaethau yr oedd yn ofynnol eu hariannu, manylion yr arbedion arfaethedig a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, ynghyd â chynnydd arfaethedig o 6.9% yn y Dreth Gyngor i alluogi'r Cyngor i bennu cyllideb gytbwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.

Cafodd y Cabinet hefyd Gynllun Ariannol Tymor Canolig dangosol wedi'i ddiweddaru a oedd yn amlygu gofyniad am arbedion posibl o £46.700 miliwn ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd o 2025-26 i 2026-27.

Holodd y Cabinet a fyddai'r arbediad dros dro a oedd yn berthnasol i'r gyllideb Cymorth Cartref ac Ailalluogi (o ganlyniad i anawsterau recriwtio ac o ran sicrhau pecynnau gofal y sector annibynnol) yn cael ei adolygu pe byddai yna welliant o ran gallu recriwtio staff yn y dyfodol. Sicrhaodd Pennaeth Gwasanaethau Ariannol y Cabinet mai addasiad dros dro oedd hwn ac na ddylai gael unrhyw effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Sicrhawyd y Cabinet ymhellach y byddai hyn yn cael ei adolygu'n barhaus.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch pa effaith yr oedd y gostyngiad mewn grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn ei chael ar gyllid y Cyngor, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol wrth y Cabinet fod y grantiau'n cefnogi amrywiaeth o wasanaethau, a'i bod yn anochel y byddai yna effaith ar y Cyngor. Eglurodd hefyd mai'r rhagdybiaeth weithiol oedd y byddai'r gostyngiadau'n cael eu hamsugno gan feysydd gwasanaeth.

Gofynnodd y Cabinet a oedd yna unrhyw bwysau yn cael ei roi ar Lywodraeth Cymru i ariannu'r pwysau cyllidebol ar ysgolion gan fod llawer ohonynt yn wynebu diffyg yn eu cyllidebau, diffyg na fyddai'n gallu cynnal y toriadau. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod y Cyngor yn lobïo Llywodraeth Cymru trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhwydweithiau amrywiol eraill i dynnu sylw at y pwysau ariannol a oedd yn wynebu awdurdodau lleol, gan gynnwys ysgolion.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch i beth yr oedd y pwysau anochel o £10.448 miliwn ar y Gwasanaethau Cymdeithasol yn berthnasol. Esboniodd swyddogion mai'r rheswm dros hyn oedd cynnydd yn y galw gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chynnydd yn ffioedd darparwyr y sector annibynnol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a, thrwy gyfrwng Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd yn cael eu cynnwys yn adroddiad y Swyddogion:

1. Cymeradwyo cynigion cyllideb ddrafft 2024-25, gan gynnwys yr arbedion parhaol a thros dro arfaethedig gwerth £30.984 miliwn, a'r defnydd untro arfaethedig o £11.394 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn.

2. Cymeradwyo'r cynnydd arfaethedig mewn taliadau am brydau ysgol mewn ysgolion uwchradd, gan Meals Direct a Bwyty Hive, ynghyd â'r cynnydd arfaethedig yn y ffi ar gyfer profion MOT, fel y manylir arnynt ym mharagraff 5.4.5 yr adroddiad.

3. Cytuno bod 100% o'r tanwariant net a ragwelir ar gyllideb refeniw 2023-24 y Cyngor yn cael ei drosglwyddo i falansau'r Gronfa Gyffredinol fel yr amlinellir ym mharagraff 5.5.2 yr adroddiad.

4. Cefnogi'r cynnig i gynyddu'r Dreth Gyngor 6.9% ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 fel y gellid sicrhau bod cyllideb gytbwys (Band D y Dreth Gyngor i gael ei osod ar £1,446.37) yn cael ei chyflawni.

5. Cytuno y dylai cynigion y gyllideb ddrafft bellach fod yn destun ymgynghoriad cyn i gynigion terfynol cyllideb 2024-25 gael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor ar 27 Chwefror 2024.

6. Nodi'r gofyniad dangosol o ran arbedion posibl o £46.700 miliwn ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd o 2025-26 i 2026-27.

**13. PRAWF BUDD Y CYHOEDD**

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r Prawf Budd y Cyhoedd, a daethant i'r casgliad, ar ôl pwyso a mesur, fod budd y cyhoedd o ran cadw'r eithriad yn drech na budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, a:

> PHENDERFYNWYD, yn unol ag Adran 100(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**14. CYNNIG I ILDIO AC AILOSOD – UNEDAU 3 A 4 BRYN BRITHDIR, PARC BUSNES OAKDALE, COED-DUON.**

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a, thrwy gyfrwng Microsoft Forms a chadarnhad llafar, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhellion yn 3.1 i) i vi) am y rhesymau a oedd yn cael eu cynnwys yn adroddiad y Swyddogion.

Daeth y cyfarfod i ben am 14.14 pm.

Cymeradwywyd a llofnodwyd yn gofnod cywir, yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneid yn y cyfarfod a gynhelid ar 21 Chwefror 2024.